diogelwch dŵr Cymru
water safety Wales

**Tuag at ddim boddi: adeiladu dyfodol lle gall pawb yng Nghymru fod yn ddiogel yn y dŵr, ar y dŵr ac o amgylch y dŵr**

# Strategaeth Atal Boddi Cymru

# 2026-2030



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Deall y mater (data a chyd-destun) ) | 6 |
| Gweledigaeth | 8 |
| Nodau | 9 |
| Monitro, gwerthuso ac adolygu | 18 |
| Cydnabyddiaeth | 19 |
| Atodiadau | 20 |
| Cyfeiriadau | 22 |

# Rhagair

**Mae dŵr wrth galon bywyd yng Nghymru. Mae'n siapio'n gwlad, yn cynnal ein cymunedau ac yn cynnig cyfleoedd pwysig ar gyfer hamdden, llesiant a ffyniant. Yn anffodus, bob blwyddyn bydd bywydau'n cael eu colli mewn digwyddiadau yn gysylltiedig â dŵr a allai gael eu hatal, gan adael teuluoedd a chymunedau â chanlyniadau trasiedi y gellid ei hosgoi yn rhy aml.**

Rwy'n falch o gefnogi'r strategaeth yma, sy'n gosod uchelgais gyffredin o atal boddi yng Nghymru. Mae'n golygu dod â gwasanaethau cyhoeddus, ysgolion, colegau, cymunedau, elusennau a phartneriaid ledled Cymru ynghyd y tu cefn i genhadaeth gyffredin o atal marwolaethau a all gael eu hosgoi yn y dŵr, ar y dŵr ac o amgylch y dŵr.

Mae'r strategaeth yn nodi fframwaith cenedlaethol i yrru'r gwaith hwn ymlaen: gwaith atal sy'n gorfod dod gyntaf. Nid rhyw ychwanegid dewisol yw diogelwch dŵr; mae'n sgil ar gyfer bywyd. Ochr yn ochr â dysgu nofio, dylai pob plentyn a phob cymuned gael yr wybodaeth a'r hyder i ddeall risg ac aros yn ddiogel. Mae'r strategaeth yma yn rhoi fframwaith cenedlaethol clir i yrru'r gwaith hwn ymlaen, gan gryfhau addysg, gwella gwaith atal, gwella ymwybyddiaeth a thargedu'r camau lle mae eu hangen fwyaf, gan sicrhau ein bod yn hoelio sylw ar y grwpiau hynny rydyn ni'n gwybod eu bod yn wynebu risg.

Mae hyn yn ymwneud â'r Gymru rydyn ni am ei hadeiladu: gwlad sy'n gwerthfawrogi pob bywyd, yn gweithredu'n gynnar i atal niwed, ac yn cydweithio er lles pawb. Trwy gefnogi cymunedau, cefnogi cydweithredu ac arddel ymagwedd genedlaethol ddi-fwlch, gallwn wneud ein hafonydd, ein glannau, ein llynnoedd a'n cronfeydd dŵr yn saffach i bawb. Gyda'n gilydd, fe allwn ni ac fe wnawn ni achub bywydau.

**Llŷr Gruffydd AS, Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd**



Credyd: Hawlfraint y Goron
Llywodraeth Cymru

# Cyflwyniad

**Gallwn adeiladu dyfodol heb foddi lle gall pawb yng Nghymru fod yn ddiogel yn y dŵr, ar y dŵr ac o amgylch y dŵr.**

Mae Diogelwch Dŵr Cymru (WSW) yn dwyn ynghyd sefydliadau ac unigolion sy'n rhannu'r weledigaeth yma, gan ddarparu'r strwythur a'r llywodraethiant angenrheidiol i sicrhau bod gwaith atal boddi yn cael ei reoli a'i gydlynu'n effeithlon ledled Cymru.


Mae Cymru'n wlad sy'n cael ei siapio gan ei hamgylchedd naturiol a'i pherthynas agos â dŵr. Mae ganddi boblogaeth o ryw 3.2 miliwn a mwy na 1,680 o filltiroedd o arfordir a rhwydwaith o afonydd, cronfeydd dŵr, llynnoedd, camlesi a dyfroedd mewndirol eraill. Mae dŵr agored yn ganolog i fywyd Cymru, gan roi cyfleoedd ar gyfer hamdden a thwristiaeth ac mae wrth galon llawer o gymunedau. Ond, mae'r dyfroedd yma hefyd yn creu risgiau.

Mae gan Gymru gyfradd foddi uwch na'r Deyrnas Unedig gyfan, ac mae dadansoddiad diweddar gan y Fforwm Diogelwch Dŵr Cenedlaethol (NWSF) yn dangos bod gan Gymru gyfradd foddi o 0.91 fesul 100,000 o bobl (2019 i 2023) o'i chymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig o 0.42 fesul 100,000.[i] Mae'r dadansoddiad diweddaraf hefyd yn dangos, yn anffodus, fod nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr yng Nghymru ar gynnydd, gyda'r cyfraddau ychydig yn uwch nag yn 2020 pan gyhoeddwyd y Strategaeth Atal Boddi gyntaf i Gymru.[ii] Mae newidiadau ym mhatrymau defnyddio dŵr, newid yn yr hinsawdd, ffactorau economaidd a chymdeithasol ac effeithiau pandemig Covid-19 i gyd wedi cyfrannu.

Bob blwyddyn yng Nghymru, mae 1,071.5 o flynyddoedd o fywyd yn cael eu colli drwy foddi.[iii] Mae pob un o'r marwolaethau yma yn drasiedi i ffrindiau, teuluoedd a chymunedau. Maen nhw'n tanlinellu'r angen brys am y strategaeth yma a phwysigrwydd adnewyddu'n hymdrechion i atal boddi.

Dros y degawd diwethaf, mae WSW a'i bartneriaid wedi bod yn gweithio'n ddiflino i ddatblygu mentrau pwysig i atal boddi, gan gynnwys rhyddhau'r Strategaeth Atal Boddi gyntaf erioed i Gymru.[iv] Mewn adolygiad diweddar[ii] cafwyd mewnwelediad i lawer o'r mentrau llwyddiannus a gafwyd yn y pum mlynedd diwethaf, llawer ohonyn nhw wedi'u hariannu neu wedi'u cefnogi gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys adnoddau addysg drochi am ddim i ysgolion, canllawiau ar gyfer arwyddion diogelwch dŵr cyson a chanllawiau i Bartneriaethau Diogelwch Dŵr (WSPs). Er gwaethaf y mentrau blaengar yma, mae'n rhaid gwneud rhagor i sicrhau gostyngiad yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr.

Yn fyd-eang, mae Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn argymell y dylai pob cenedl ddatblygu strategaeth neu gynllun atal boddi cenedlaethol[v] er mwyn lleihau ac atal marwolaethau drwy foddi. Yn 2025, creodd y Cynghrair Byd-eang dros Atal Boddi, a sefydlwyd mewn ymateb i'r penderfyniad yn 2023, y strategaeth fyd-eang gyntaf erioed.[vi] Mae'r NWSF hefyd wedi darparu egwyddorion arweiniol i bedair gwlad y Deyrnas Unedig eu mabwysiadu a'u rhoi ar waith yn rhanbarthol i sicrhau cysondeb ar draws y Deyrnas Unedig.[vii] Ar sail y canllawiau byd-eang yma a Strategaeth Atal Boddi yr NWSF ar gyfer y Deyrnas Unedig, mae'r strategaeth yma yn rhoi fframwaith clir i lywio gweithredu cydgysylltiedig yng Nghymru.




**Ffigur 1: Y berthynas rhwng Strategaethau Atal Boddi byd-eang, y Deyrnas Unedig a Chymru**

Mae'r strategaeth yma yn cyd-fynd â rhai o fframweithiau allweddol Llywodraeth Cymru. Mae'n ategu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (fel y'i diwygiwyd), gan hybu gwaith atal, addysg a syniadau hirdymor i adeiladu Cymru iachach a mwy gwydn.[viii] Mae'n cydategu'r Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru (2024) drwy fynd i'r afael â risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd fel llifogydd a thywydd eithafol.[ix] Mae hefyd yn ategu Buddsoddi mewn Cymru Iachach, gan flaenoriaethu iechyd y cyhoedd a diogelwch i grwpiau sy'n agored i niwed. Gyda'i gilydd, mae'r cysylltiadau yma yn ymgorffori atal boddi mewn ymdrechion cenedlaethol ehangach i wella llesiant a gwytnwch[x]. Bydd y strategaeth yma yn rhoi cyfeiriad ac arweiniad ymarferol i unrhyw un sydd â'r awydd neu'r modd i helpu i leihau boddi.

**Byddwn yn fwyaf llwyddiannus os bydd pawb yn chwarae eu rhan.**

## ASTUDIAETH ACHOS

### Arweinyddiaeth Genedlaethol mewn Atal Boddi – Carreg Filltir i Gymru

Ers cyhoeddi'r Strategaeth Atal Boddi ddiwethaf i Gymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd cam arwyddocaol ymlaen drwy roi arweinyddiaeth glir a chydlynu diogelwch dŵr a gwaith atal boddi drwy ddyrannu gweinidog llywodraeth i arwain ar hyn.

Mae'r symudiad yma yn cyd-fynd â galwad Sefydliad Iechyd y Byd am arweinyddiaeth a chydlynu cenedlaethol cryf mewn gwaith atal boddi. Drwy roi'r cyfrifoldeb i weinidog, mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod diogelwch dŵr yn cael ei gydnabod fel blaenoriaeth ym maes iechyd y cyhoedd, gan alluogi gwell cydlynu, cyllid ac atebolrwydd ar draws asiantaethau.


# Deall y mater (data a chyd-destun)

Mae data yn chwarae rhan hanfodol wrth ddeall y mater drwy roi dirnadaeth o batrymau, risgiau ac ymddygiadau a all helpu i lywio ymyriadau sydd wedi'u targedu i achub bywydau. Systemau casglu data yw'r cam hanfodol cyntaf tuag at atal boddi am eu bod yn sefydlu graddfa'r broblem ac yn caniatáu inni flaenoriaethu ac optimeiddio ymyriadau sydd wedi'u targedu ar y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf. I fod yn ddefnyddiol, rhaid i'r data yma fod yn gyflawn, yn ddilys ac ar gael yn gyflym.

## Mewnwelediadau data allweddol

**Dros y pum mlynedd (2019 i 2023):**

**260** Nifer y bobl a gollodd eu bywyd drwy farwolaeth yn gysylltiedig â dŵr.
**Bob blwyddyn, mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o un farwolaeth bob wythnos**[1]



**55** y cant — Canlyniadau damweiniol yn gysylltiedig â dŵr oedd 55 y cant (143 o bobl) o'r marwolaethau

**32** y cant — 83 yn achosion lle roedd amheuaeth o hunanladdiad

**13** y cant — 33 o bobl yn amhenodol

llai nag **1** y cant — troseddau

Ar gyfartaledd, bob blwyddyn, roedd yna **29 o farwolaethau damweiniol yn gysylltiedig â dŵr yng Nghymru**

**49** y cant — Digwyddodd rhyw hanner y marwolaethau damweiniol yn gysylltiedig â dŵr mewn lleoliadau mewndirol

**36 y cant** canran y marwolaethau damweiniol yn gysylltiedig â dŵr a ddigwyddodd yn nhymor yr haf

Adroddwyd bod **alcohol/cyffuriau** yn bresennol mewn **31 y cant o'r marwolaethau damweiniol yn gysylltiedig a dŵr**

Gwrywod oedd **wyth o bob deg marwolaeth** ddamweiniol yn gysylltiedig â dŵr ac mae boddi drwy ddamwain yn digwydd amlaf ymysg **gwrywod rhwng 20 a 29 oed**

**43** y cant — Digwyddodd y mwyafrif o'r marwolaethau damweiniol **yn ystod gweithgaredd hamdden**

Mae dadansoddiad llawn o'r data ar gyfer Cymru i'w weld yn Atodiad 1.

1 Ffigur cyfartalog yw un bob wythnos, wedi'i gyfrifo o gyfanswm o 260 o farwolaethau dros gyfnod o bum mlynedd. Y bwriad yw dangos cyfanswm y digwyddiadau ac nid awgrymu bod un farwolaeth wedi digwydd ym mhob wythnos unigol.
2 Mae 'damweiniol' yn cyfeirio at ganlyniadau damweiniau ac achosion naturiol.
3 Mae 'gweithgaredd hamdden' yn cyfeirio at chwaraeon antur, pysgota, cychod (eraill), cychod modur, hwylio, gweithgareddau glan dŵr.

## Ymateb i Argyfyngau ac Achub

Ar gyfartaledd, mae yna 2,049 o ddigwyddiadau yn gysylltiedig â dŵr bob blwyddyn sy'n gofyn ymateb brys, sy'n cyfateb i ryw 6 digwyddiad bob dydd.

Er nad yw pob digwyddiad yn arwain at farwolaeth, mae pob ymateb brys yn fodd i'n hatgoffa y gall niwed waethygu'n gyflym yn y dŵr, ar y dŵr neu o amgylch y dŵr. Drwy wella ymwybyddiaeth y cyhoedd, cryfhau partneriaethau lleol, cefnogi amgylcheddau mwy diogel a hybu camau amserol, gall WSW a'i aelodau helpu i leihau argyfyngau y gellir eu hosgoi, gan amddiffyn y cyhoedd a'r ymatebwyr.

Cyfanswm yr ymatebion brys i ddigwyddiadau yn gysylltiedig â dŵr yng Nghymru ar gyfer 2019/20, 2020/21, 2021/22 a 2022/23:

**2,303** 2019/2020

**2,091** 2020/2021

**1,833** 2021/2022

**1,969** 2022/2023

Mae'r ffigurau yma yn cynnwys digwyddiadau yn gysylltiedig â dŵr a gydlynwyd gan y Gwasanaethau Tân ac Achub a Gwylwyr Glannau Ei Fawrhydi (i gael rhagor o nodiadau, gweler Atodiad Un).

# Gweledigaeth

**Dyma'n gweledigaeth ni:**

**Tuag at ddim boddi: adeiladu dyfodol lle gall pawb yng Nghymru fod yn ddiogel yn y dŵr, ar y dŵr ac o amgylch y dŵr.**

Amlinellir isod grynodeb o'r gwerthoedd a'r swyddogaethau allweddol sydd wedi'u diffinio yn Strategaeth Atal Boddi y Deyrnas Unedig.[vii] Dyma sail y strategaeth yma, sy'n llywio'i chyfeiriad ac yn sicrhau ei bod yn gyson â blaenoriaethau cenedlaethol.

| | |
|---|---|
| **GWELEDIGAETH** | **Tuag at ddim boddi: adeiladu dyfodol lle gall pawb yn y Deyrnas Unedig fod yn ddiogel yn y dŵr, ar y dŵr ac o amgylch y dŵr.** |
| **CENHADAETH** | **Mae Strategaeth Atal Boddi y Deyrnas Unedig yn nodi egwyddorion allweddol yr NWSF ar gyfer atal boddi drwy lywio strategaethau cyson a chydategol ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.** |
| **GWERTHOEDD** | **• Cydweithio • Tegwch<br>• Camau gwybodus • Tosturi** |
| **SWYDDOGAETHAU ATEGOL** | **• Data a thystiolaeth • Cyfathrebu<br>• Addysg • Polisi** |

**Ffigur 2: Y cysyniadau sy'n sail i Strategaeth Atal Boddi y Deyrnas Unedig**

Ar sail y weledigaeth yma a'r gwerthoedd craidd yma, mae WSW wedi sefydlu blaenoriaethau clir ac ymyriadau wedi'u targedu i helpu i leihau boddi. Mae'r gwaith yma yn cael ei gyflawni drwy grwpiau swyddogaethol WSW, trefniadau partneriaeth, a chyfraniad ehangach aelodau WSW, sy'n chwarae rhan hanfodol wrth wneud gwaith ymarferol i atal boddi ledled Cymru (mae rhestr lawn o aelodau WSW sy'n cefnogi'r strategaeth wedi'i chynnwys yn Atodiad Dau).

# Nodau

Er mwyn cyflawni'n gweledigaeth, mae WSW wedi datblygu'r nodau canlynol:

- Cadw'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan foddi wrth wraidd gwaith atal boddi
- Gwella data ar ddigwyddiadau dŵr
- Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael addysg diogelwch dŵr ac yn gallu nofio
- Cryfhau partneriaethau atal boddi lleol ledled Cymru
- Sicrhau bod ymdrechion atal boddi yn parhau i ymateb i newidiadau ym mhatrymau'r tywydd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â dŵr sy'n dechrau dod i'r amlwg
- Hybu mwynhad diogel a chyfrifol o ddŵr agored yng Nghymru
- Cyfrannu at leihau nifer yr hunanladdiadau sy'n gysylltiedig â dŵr.

*Nid yw'r nodau yma wedi'u rhestru yn nhrefn blaenoriaeth.

## NOD

**Cadw'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan foddi wrth wraidd gwaith atal boddi**

Yng Nghymru, mae teuluoedd, ffrindiau a'r rhai sydd wedi colli anwyliaid yn drasig drwy foddi yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio ymdrechion atal boddi. Mae eu cyfraniadau nhw, drwy Grŵp Profiad Byw WSW ac eiriolaeth unigol, wedi ysgogi newid ystyrlon. Ceir un enghraifft bwerus o hyn yn yr astudiaeth achos ar Gyfraith Mark Allen a drawsnewidiodd yr ymagwedd genedlaethol at ddiogelwch dŵr.

### AMCANION A CHAMAU

**Darparu lle i'r rhai sydd wedi colli anwylyd gysylltu a chydlynu ymdrechion atal boddi**


- Gweithio gyda'r rhai sydd wedi colli anwylyd ac sydd eisiau bod yn rhan o waith atal boddi
- Darparu cyfeiriadau i'r rhai sydd wedi cael profedigaeth drwy foddi gysylltu â WSW
- Grymuso'r rhai sydd wedi colli anwylyd, casglu mewnwelediadau, cyd-greu ymgyrchoedd a dylanwadu ar ymdrechion atal boddi.

## ASTUDIAETH ACHOS

### Cyfraith Mark Allen — Trawsnewid Diogelwch Dŵr yng Nghymru

Yn 2018, cafodd Mark Allen, 18 oed, ei foddi'n drasig ar ôl mynd i ddŵr oer ar ddiwrnod cynnes. Sbardunodd marwolaeth Mark ymgyrch bwerus dan arweiniad ei fam, Leeanne Bartley, a fu'n eiriol dros well mesurau diogelwch dŵr i atal trasiedïau tebyg. Enillodd yr ymgyrch gefnogaeth eang gan y cyhoedd, gan arwain at ddeiseb a gafodd dros 11,000 o lofnodion.

Arweiniodd yr ymgyrch at weddnewid ymagwedd Cymru at waith atal boddi. Pasiodd Llywodraeth Cymru Gyfraith Mark Allen,[xi] a arweiniodd at benodi gweinidog pwrpasol ar gyfer atal boddi ac ymrwymiad i sicrhau cyllid i gefnogi WSW.



Credyd: Llun wedi'i ddarparu gan Leeanne Bartley

## NOD

### Gwella data ar ddigwyddiadau dŵr

Mae data a dirnadaeth dda yn ein helpu i ddeall ble, pryd, a pham mae digwyddiadau boddi yn digwydd. Heb ddata, allwn ni ddim gweld patrymau, sylwi ar risgiau, na gwybod pa fesurau diogelwch sy'n gweithio orau. Mae data ar farwolaethau, achubiadau ac achosion sydd bron â digwydd yn gwneud cyfraniad hanfodol at leihau marwolaethau drwy foddi, ond nid yw bob amser yn cael ei gasglu nac ar gael. Mae mwy o ddata ar ddigwyddiadau arfordirol ar gael nag ar ddigwyddiadau mewndirol, ond mae angen gwelliannau yn y ddau faes. Drwy wella'r ffordd rydyn ni'n casglu ac yn rhannu data a dirnadaeth am ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â dŵr, gallwn wneud penderfyniadau doethach, canolbwyntio'n hymdrechion a helpu i gadw pobl yn ddiogel ledled Cymru.

### AMCANION A CHAMAU

**Gwella'r data sydd ar gael yng Nghymru at ddibenion atal boddi**

- Casglu a dadansoddi data ar farwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr er mwyn bwydo a thargedu mentrau atal boddi ar lefel genedlaethol a lleol
- Archwilio opsiynau ar gyfer gwella data digwyddiadau dŵr gan gynnwys proses debyg i Adolygiad Digwyddiadau Boddi (DIR) yr Alban
- Gwella ansawdd a hygyrchedd y data ar gyfer marwolaethau ac achubiadau sy'n gysylltiedig â dŵr mewndirol
- Hybu gwaith casglu a rhannu data ar ddigwyddiadau dŵr nad ydynt yn angheuol.

**Hybu data boddi a diogelwch dŵr gyda sefydliadau partner a'r cyhoedd**

- Rhannu'r prif ddata a mewnwelediadau gydag aelodau WSW, sefydliadau partner a'r cyhoedd i helpu i ddeall risg yn well.

## ASTUDIAETH ACHOS

### Dichonoldeb proses Adolygu Digwyddiadau Boddi yng Nghymru

Mae WSW wrthi'n cynnal astudiaeth ddichonoldeb i archwilio'r potensial ar gyfer proses debyg i'r DIR yng Nghymru. Ar sail y model a ddatblygwyd gan Water Safety Scotland, mae'r astudiaeth yn ystyried a ellid defnyddio dull strwythuredig, amlasiantaeth o adolygu marwolaethau damweiniol sy'n gysylltiedig â dŵr yng nghyd-destun Cymru.

Mae'r gwaith yn cynnwys ymgysylltu â phartneriaid ar draws sectorau perthnasol a bydd yn archwilio'r manteision posibl ochr yn ochr ag ystyriaethau ymarferol a chyfreithiol ac adnoddau. Nid yw'r astudiaeth archwiliol yma yn rhwymo neb i weithredu, ond fe fydd yn rhoi dirnadaeth werthfawr o ddichonoldeb system o'r fath sy'n gweithio tuag at wella'r gwaith casglu data er mwyn llywio ymyriadau sy'n anelu at leihau boddi yng Nghymru yn well.



## NOD

**Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael addysg diogelwch dŵr ac yn gallu nofio**

Mae nofio ac addysg diogelwch dŵr yn sgiliau bywyd hanfodol i bob plentyn a pherson ifanc. Ein nod ni yw eu sicrhau eu bod ar gael ac yn hygyrch i bawb.

### AMCANION A CHAMAU

**Pob plentyn yn gallu nofio**

- Cefnogi nofio yn yr ysgol er mwyn helpu pob plentyn i gwblhau Gwobr Hunan-achub Nofio Ysgol yn llwyddiannus
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol i sicrhau bod pob plentyn yn cael 20 awr o wersi nofio ysgol yn y dŵr
- Creu mwy o gyfleoedd ar gyfer addysg drochi ar ddŵr agored drwy raglenni fel Nofio'n Ddiogel Cymru
- Cefnogi galwadau'r sefydliadau partner i leihau nifer y pyllau sy'n cael eu cau a'r costau sy'n rhwystro pobl rhag cymryd gwersi nofio.

**Pob plentyn i gael addysg diogelwch dŵr yn yr ystafell ddosbarth yng Nghymru**

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar sut y gellir darparu addysg diogelwch dŵr drwy gyfrwng y Cwricwlwm i Gymru
- Cefnogi sefydliadau diogelwch dŵr i ddarparu gwersi addysg diogelwch dŵr cyson a safonedig gan sicrhau eu bod yn gyson ag adnoddau WSW
- Datblygu adnoddau addysg wedi'u teilwra sy'n ennyn diddordeb arddegwyr ac oedolion ifanc gyda chynnwys diogelwch dŵr perthnasol, sy'n briodol i'w hoedran.

**Beth yw Nofio Ysgol?** Mae strategaeth YMLAEN Nofio Cymru yn nodi gweledigaeth o "weithgareddau dŵr i bawb, am oes".[xii] Rhywbeth sy'n ganolog i'r weledigaeth yma yw Nofio Ysgol, menter flaenllaw o fewn colofn Addysg ac Iechyd YMLAEN. Rhaglen nofio ysgol genedlaethol Cymru ar gyfer plant 7–11 oed yw Nofio Ysgol, ac mae wedi'i chynllunio i roi sgiliau nofio hanfodol a gwybodaeth hanfodol am ddiogelwch dŵr i bob plentyn, megis mynd i mewn ac allan yn ddiogel, arnofio, troedio dŵr a thechnegau goroesi. Mae'r rhaglen wedi'i chysoni'n llawn â'r Cwricwlwm i Gymru, a'i nod yw sicrhau bod pob plentyn yn gadael yr ysgol gynradd yn nofiwr hyderus, cymwys sy'n deall sut i gadw'n ddiogel yn y dŵr ac o amgylch y dŵr.

## ASTUDIAETH ACHOS

### Nofio’n Ddiogel Cymru: Grymuso Plant â Sgiliau Achub Bywydau

Mae Nofio’n Ddiogel Cymru yn ymyriad addysg diogelwch dŵr sy’n rhoi profiad ymarferol o ddŵr agored mewn ffordd ddiogel a hwyliog i blant 7-14 oed. Mae’r rhaglen diogelwch dŵr ddi-dâl yma sy’n canolbwyntio ar y gymuned yn cael ei chyflwyno drwy bartneriaeth rhwng Nofio Cymru, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) a Swim England gyda chymorth awdurdodau lleol, ysgolion, Dŵr Cymru a phartneriaid cyflawni eraill.

Yn 2025, cymerodd 3,117 o blant ran mewn sesiynau Nofio’n Ddiogel Cymru, gan ennill gwybodaeth hanfodol am ddiogelwch dŵr a phrofiad ymarferol mewn technegau hunan-achub mewn amgylcheddau dŵr agored. Cyflwynwyd sesiynau’n llwyddiannus ar draws Caerdydd, Conwy, Gwynedd, Sir Benfro, Sir Ddinbych, Torfaen ac Ynys Môn, gan helpu i fagu hyder a sgiliau achub bywydau ymhlith cyfranogwyr ifanc.



## NOD

### Cryfhau partneriaethau atal boddi lleol ledled Cymru

Mae sefydliadau lleol ar dir da i arwain ymdrechion atal boddi, gan eu bod yn deall y risgiau penodol yn eu cymunedau. Mae'r sefydliadau yma ar eu mwyaf effeithiol pan fyddan nhw'n gweithio gyda'i gilydd fel Partneriaethau Diogelwch Dŵr (WSPs), wedi'u cydlynu a'u cefnogi'n genedlaethol gan WSW.

Mae polisïau diogelwch dŵr yn sbardun allweddol i adnoddau ac ymrwymiad i atal boddi. Maen nhw'n amlinellu sut mae tirfeddianwyr yn rheoli risgiau mewn safleoedd dŵr agored ac yn dynodi cyfrifoldebau clir i helpu i atal boddi.

### AMCANION A CHAMAU

**Helpu i ddatblygu, cryfhau a chynnal WSPs ledled Cymru**

- Helpu'r WSPs presennol i barhau i gydlynu ymdrechion atal boddi ar lefel leol.
- Sefydlu WSPs mewn ardaloedd lle nad ydyn nhw ar waith eto
- Sicrhau bod WSW yn cael ei gynrychioli'n gyson i hybu cysondeb, cryfhau cydweithredu, a chefnogi penderfyniadau cenedlaethol a lleol.

**Cefnogi pob un o'r 22 awdurdod lleol i fabwysiadu a gweithredu polisi diogelwch dŵr**

- Dadansoddi'r polisïau diogelwch dŵr sy'n cael eu mabwysiadu ledled Cymru a chyflwyno adroddiadau ar y rhain ar gyfnodau amser cyson
- Darparu canllawiau, cefnogaeth a chyngor i'r awdurdodau lleol ar greu a gweithredu polisïau diogelwch dŵr.

## ASTUDIAETH ACHOS

### Fforwm Diogelwch Dŵr Sir Benfro

Mae gan Sir Benfro arfordir hir ac amrywiol, gyda thraethau prysur, harbyrau, dyfroedd mewndirol a mannau adnabyddus ar gyfer gweithgareddau sy'n denu trigolion, ymwelwyr a grwpiau wedi'u trefnu gydol y flwyddyn. Mae'r mannau yma yn dod â chryn fanteision i iechyd, llesiant a thwristiaeth leol, ond maen nhw hefyd yn creu ystod o risgiau diogelwch dŵr sy'n gofyn am weithredu lleol cydgysylltiedig.

Yn 2019, sefydlwyd Fforwm Diogelwch Dŵr Sir Benfro i ddod â sefydliadau sy'n ymwneud ag atal boddi ar draws y sir ynghyd. Mae'r fforwm yn darparu strwythur i bartneriaid rannu data, gwybodaeth leol a phrofiad gweithredol, gan helpu i nodi tueddiadau, deall risgiau lleol a blaenoriaethu gweithgarwch lle mae ei angen fwyaf.

Mae'r bartneriaeth wedi cefnogi gwaith wedi'i dargedu ar nofio dŵr agored, cychod dŵr personol, padlfyrddio ar eich traed, gweithgareddau arfordirol a neidio clogwyni. Mae hyn yn cynnwys gwaith i wella arwyddion ac addysg mewn mannau lle mae'r risg yn uwch fel y Morlyn Glas ac Abereiddi, ac addysg amlasiantaeth i fyfyrwyr lleol ar beryglon neidio o uchder i'r dŵr.

Ers ei sefydlu, mae Partneriaeth Diogelwch Dŵr Sir Benfro wedi helpu i wneud gwaith atal boddi lleol yn fwy cydlynol a gweladwy ac yn fwy seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n enghraifft ymarferol o sut y gall partneriaid lleol gydweithio i ddeall risg, rhannu adnoddau a chymryd camau sy'n adlewyrchu anghenion eu cymunedau.

## NOD

**Sicrhau bod ymdrechion atal boddi yn parhau i ymateb i newidiadau ym mhatrymau'r tywydd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â dŵr sy'n dechrau dod i'r amlwg**

Mae digwyddiadau tywydd mwy aml a garw, fel llifogydd, tonnau gwres a stormydd, yn newid sut a ble mae pobl yn agored i risg. Mae Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd[xi] Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at yr angen i fod yn barod iawn am argyfyngau mewn ymateb i'r newidiadau yma.

Wrth i risgiau dŵr agored esblygu, mae'n hanfodol bod WSW yn addasu ei ymdrechion atal boddi i gyd-fynd â nhw. Mae hyn yn golygu achub y blaen ar fygythiadau sy'n dod i'r amlwg a sicrhau bod cymunedau'n cael eu diogelu mewn amgylchedd sy'n newid.

### AMCANION A CHAMAU

**Paratoi'r cyhoedd yng Nghymru ar gyfer mwy o risg yn gysylltiedig â dŵr sy'n deillio o newid hinsawdd**

- Gwella gwytnwch ac ymateb i'r hinsawdd sy'n newid drwy addasu negeseuon diogelwch dŵr
- Hysbysu pobl am risgiau newydd yn gysylltiedig â dŵr, sy'n deillio o newid hinsawdd megis mwy o lifogydd, tonnau gwres ac erydu'r arfordir
- Monitro digwyddiadau boddi sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a chyflwyno adroddiadau ar y rhain er mwyn bwydo ymdrechion atal boddi yn y dyfodol.

## ASTUDIAETH ACHOS

### Deall effaith newid hinsawdd ar risg boddi: Mewnwelediadau gan Gymdeithas Achub Bywyd Frenhinol y Deyrnas Unedig (RLSS UK)[xiii] a Phrifysgol Bournemouth[xiv]

Mae astudiaethau ymchwil ar wahân gan Brifysgol Bournemouth ac RLSS UK wedi cadarnhau perthynas rhwng tymheredd aer cynyddol a risg uwch o foddi.

Yn ôl astudiaeth RLSS UK:

- Pan fydd tymheredd aer yn y Deyrnas Unedig yn cyrraedd 25°C neu fwy, mae'r risg o foddi'n ddamweiniol bum gwaith yn uwch nag ar ddiwrnodau 10°C, ac mae nifer y marwolaethau drwy foddi dair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd tymhorol
- Mae mwy o arddegwyr a phobl ifanc yn boddi pan fydd y tymheredd yn cyrraedd 25°C neu'n uwch
- Roedd 57 y cant o'r rhai a foddodd ar ddiwrnodau poeth wrthi'n nofio, bron dair gwaith yn uwch nag ar ddiwrnodau oerach.

Yn ôl astudiaeth Prifysgol Bournemouth:

- Mae'r risg o foddi yn cynyddu dros 7 y cant am bob 1°C o gynnydd yn y tymheredd
- Gwelwyd y cynnydd mwyaf ymysg gwrywod ac ar ddiwrnodau pan oedd tymheredd yr aer yn cyrraedd 25°C neu'n uwch
- Mae'n ymddangos bod cynnydd mewn risg yn fwy pan oedd yna amheuaeth o feddwdod

Mae gan y canfyddiadau yma oblygiadau arwyddocaol i Gymru, lle disgwylir i newid yn yr hinsawdd ddod â thonnau gwres mwy aml a dwys.

# NOD

## Hybu mwynhad diogel a chyfrifol o ddŵr agored yng Nghymru

Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr yn ffordd wych o aros yn egnïol a mwynhau natur. Mae Cymru'n adnabyddus am ei harfordiroedd, ei hafonydd a'i llynnoedd hardd, sy'n denu pobl o bob cwr o'r byd. Dylai pawb yng Nghymru fod yn ymwybodol o risgiau sy'n gysylltiedig â dŵr, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu risg arwyddocaol o foddi a grwpiau a chymunedau sydd ar hyn o bryd heb ddigon o negeseuon diogelwch dŵr yn eu gwasanaethu. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i nod o Gymru iachach,[xv] bydd WSW yn hybu mwynhad diogel a chyfrifol o ddŵr agored.

### AMCANION A CHAMAU

**Sicrhau bod negeseuon diogelwch dŵr yn hwylus ac yn cyrraedd grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli[4] a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau sy'n atal ymgysylltu**

- Gweithio gyda phartneriaid i nodi a goresgyn rhwystrau sy'n atal ymgysylltu
- Cyd-ddylunio a chyflwyno rhaglenni atal boddi i sicrhau eu bod yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn effeithiol i bawb.

**Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o risgiau sy'n gysylltiedig â dŵr**

- Defnyddio'r wasg, y cyfryngau ar-lein, y cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg newydd i ddosbarthu negeseuon allweddol WSW i'r cyhoedd
- Olrhain dealltwriaeth y cyhoedd o risg sy'n gysylltiedig â dŵr er mwyn bwydo'r ymagwedd yn y dyfodol
- Creu ymgyrchoedd wedi'u teilwra yn seiliedig ar dystiolaeth, data a mewnwelediadau.

**Darparu cyngor arbenigol, ar sail data ar weithgareddau hamdden o amgylch dŵr agored**

- Datblygu negeseuon cyson ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â dŵr, y cytunir arnynt gan aelodau WSW a chyrff llywodraethu chwaraeon/gweithgareddau perthnasol
- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fentrau diogelwch dŵr a chynlluniau achrededig
- Cefnogi manwerthwyr a gweithgynhyrchwyr i ddarparu negeseuon diogelwch dŵr wrth y pwynt gwerthu.

4 Yn y cyd-destun yma, mae "tangynrychioli" yn cyfeirio at grwpiau neu bobl a allai wynebu rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael mynediad at wybodaeth diogelwch dŵr neu gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar ddŵr.

## NOD

**Cyfrannu at leihau nifer yr hunanladdiadau sy'n gysylltiedig â dŵr**

Mae hunanladdiad o amgylch dyfrffyrdd yn fater difrifol a chymhleth. Mae colli bywyd mewn modd trasig a allai gael ei atal yn creu canlyniadau pellgyrhaeddol i deuluoedd a chymunedau. Mae ymateb i ddigwyddiadau hefyd yn cael effaith arwyddocaol ar iechyd meddwl yr ymatebwyr ac ar gapasiti eu sefydliadau, ac yn aml yn gyfrifol am gyfran arwyddocaol o alwadau brys. Mae WSW yn cydnabod bod mynd i'r afael â hunanladdiad yn gysylltiedig â dŵr yn hanfodol er mwyn lleihau nifer y marwolaethau drwy foddi.

Mae llawer o bobl sy'n profi argyfwng yn ymyl dŵr yn cael eu hachub yn llwyddiannus ac yn mynd ymlaen i fyw bywydau boddhaol. Mae'r achubiadau yma yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymyrraeth amserol, ymateb tosturiol a mesurau atal effeithiol wrth achub bywydau.

Yn genedlaethol, mae adnoddau wedi'u neilltuo i atal hunanladdiad a hunan-niweidio, sef adnoddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a ddarperir drwy Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru (2025–2035).[xvi] Mae WSW yn cefnogi'r strategaeth yma a'i chynlluniau cyflawni cysylltiedig.

### AMCANION A CHAMAU

**Helpu gweithwyr proffesiynol cyhoeddus a gweithwyr proffesiynol iechyd i atal hunanladdiad a hunan-niweidio**

- Cydweithio â gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol i wella diogelwch mewn mannau sy'n gysylltiedig â dŵr sy'n peri pryder
- Rhannu data a dirnadaeth ar ddigwyddiadau dŵr i wella gwaith atal hunanladdiad a hunan-niweidio
- Hysbysu aelodau WSW am yr arferion gorau a'r canllawiau perthnasol sy'n ymwneud ag atal hunanladdiad a hunan-niweidio, gan gynnwys cefnogaeth i ymatebwyr sy'n gweithio'n rheolaidd gyda phobl mewn argyfwng neu sy'n agored i ddigwyddiadau trawmatig.



# Monitro, gwerthuso ac adolygu

Mae monitro, gwerthuso ac adolygu'r strategaeth yma, ei fframwaith a'i swyddogaeth yn rheolaidd yn hanfodol er mwyn sicrhau ei bod yn berthnasol ac yn ddefnyddiol yn barhaus wrth i ofynion, tueddiadau a thechnolegau newid.

Bydd WSW yn adolygu'r strategaeth yma bob blwyddyn drwy ei Grŵp Llywio a bydd yn gweithio gyda'r NWSF yn flynyddol ar adolygiad llawn o'r fframwaith strategol ledled y Deyrnas Unedig.



# Cydnabyddiaeth

Cafodd y ddogfen yma ei datblygu a'i hysgrifennu gan aelodau o Is-grŵp Strategaeth WSW:

- Chris Cousens (RNLI)
- Carlene McAvoy (RoSPA)
- Peter Gallagher (RoSPA)
- Richard Wasson (Gwylwyr Glannau EF)
- Paul Kay (Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru)
- Fergus Feeney (Nofio Cymru).

Hoffem ddiolch i aelodau WSW a'r rhai a fu'n cyfrannu at y strategaeth ac at ei datblygu.

Hoffem ddiolch hefyd i'r holl sefydliadau ac unigolion a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

# Atodiadau

## Atodiad Un – Nodiadau ar y data

**Data WAID**

Mae'r holl ddata sydd wedi'i ddefnyddio yn deillio o WAID 2019 i 2023 (v2) oni nodir fel arall.

Mae ffigurau cyfraddau poblogaeth yn defnyddio data canol blwyddyn SYG o rifyn Canol 2024 o'r data.

Mae cyfanswm y marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr yn cynnwys: damweiniol, hunanladdiad, troseddau ac amhenodol. Mae marwolaethau damweiniol yn cyfeirio at achosion damweiniol a amheuir/a gadarnhawyd ac achosion naturiol sy'n gysylltiedig â dŵr. Mae marwolaethau drwy hunanladdiad yn cyfeirio at achosion hunanladdiad a amheuir/a gadarnhawyd.

Mae amhenodol yn cyfeirio at ddigwyddiadau lle na lwyddwyd i gategoreiddio'r bwriad.

Pan fo ffigurau wedi'u hepgor oherwydd gwybodaeth gyfyngedig, mae hyn wedi'i nodi'n glir fesul categori (e.e. n=394; 13 wedi'u hepgor).

Tacsonomegau WAID ar gyfer gweithgareddau:

- Gweithgareddau masnachol lle cofnodwyd gweithgaredd yr ymadawedig fel masnachol
- Gweithgareddau domestig lle cofnodwyd gweithgaredd yr ymadawedig mewn lleoliad domestig/preswyl
- Gweithgareddau bob dydd lle nad oedd yr ymadawedig yn bwriadu bod yn y dŵr (e.e. pobl oedd yn cerdded, rhedeg a beicio wrth ymyl y dŵr)
- Gweithgareddau eithriadol lle cofnodwyd gweithgaredd yr ymadawedig fel eithriadol e.e. achub person/anifail
- Gweithgareddau hamdden lle cofnodwyd y gweithgaredd fel chwaraeon neu weithgaredd sy'n seiliedig ar ddŵr.

## Data ymatebion brys

Daw'r data a gasglwyd ar gyfer adran yr ymatebion brys yng Nghymru o ffynonellau'r Gwasanaeth Tân ac Achub (FRS) a Gwylwyr Glannau EF. Mae data Tân ac Achub Cymru yn cynnwys Digwyddiadau Gwasanaethau Arbennig yr aeth criwiau iddyn nhw ac a gofnodwyd fel llifogydd, achub neu dynnu o'r dŵr.

Mae data Gwylwyr Glannau EF wedi'i ddarparu gan Wylwyr Glannau EF yn Aberdaugleddau ac mae'n ystyried y mathau canlynol o ddigwyddiadau: person yn ymddangos mewn trafferth, person yn y dŵr, person wedi'i dorri i ffwrdd neu wedi'i ddal yn sownd, person ar lestr dŵr personol – e.e. tegan chwythu, roced oleuo, person yn sownd mewn mwd, argyfyngau llifogydd sifil posibl, deifwyr, llong – llestr dŵr personol, dyn yn y môr a digwyddiadau eraill sy'n dechrau â "llestr" ac sy'n cynnwys ymateb brys a risg i fywyd.

| Asiantaeth | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| **Tân ac Achub Cymru** | 1,207 | 1,023 | 610 | 785 |
| **Gwylwyr Glannau EF** | 1,096 | 1,068 | 1,223 | 1,184 |
| **Cyfansymiau** | 2,303 | 2,091 | 1,833 | 1,969 |

## Atodiad Dau – Aelod-sefydliadau WSW sy'n cefnogi'r Strategaeth

# Cyfeiriadau


i. Fforwm Diogelwch Dŵr Cenedlaethol (2026) The UK Drowning Prevention Strategy 2026 Annex 1: UK Data Tables. Ar gael: nationalwatersafety.org.uk/strategy

ii. Diogelwch Dŵr Cymru (2024) Adolygiad Canol Strategaeth - Strategaeth Atal Boddi Cymru (2020-2026) Ar gael ar-lein: nationalwatersafety.org.uk/media/1430/wsw-mid-strategy-review-wdps-2020-2026-v3.pdf

iii. Yn seiliedig ar ddata WAID 2023 v2 (estynedig) a dadansoddiad gan y llywodraeth sy'n nodi bod pob blwyddyn o fywyd a gollwyd yn cael ei brisio yn £60,000, yn unol â chanllawiau Trysorlys EF yn The Green Book: Appraisal and Evaluation in Central Government

iv. Diogelwch Dŵr Cymru (2020) Strategaeth Atal Boddi Cymru (2020-2026) Ar gael ar-lein: diogelwchdwrcymru.org.uk/siteassets/about/strategy/strategaeth-atal-boddi-cymru-2020-2026.pdf

v. Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig (2021) Global drowning prevention: penderfyniad A/RES/75/273. Ar gael ar-lein: digitallibrary.un.org/record/3925005?ln=en&v=pdf

vi. Y Cynghrair Byd-eang ar gyfer Atal Boddi (2025) Global strategy for drowning prevention. Ar gael ar-lein: who.int/publications/m/item/global-strategy-for-drowning-prevention--turning-the-tide-on-aleadingkiller

vii. Y Fforwm Diogelwch Dŵr Cenedlaethol (2026) The UK Drowning Prevention Strategy. Ar gael ar-lein: nationalwatersafety.org.uk/strategy

viii. Senedd Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Ar gael ar-lein: https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents

ix. Llywodraeth Cymru (2024) Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd i Gymru. Ar gael ar-lein: www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-10/strategaeth-addasu-ir-hinsawdd-ar-gyfer-cymru-2024.pdf

x. Iechyd Cyhoeddus Cymru (2025) Buddsoddi mewn Cymru iachach: blaenoriaethu atal. Ar gael ar-lein: https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2025/01/Buddsoddi-mewn-Cymru-Iachach-blaenoriaethu-atal.pdf

xi. Pwyllgor Deisebau Senedd Cymru (2022) Cyfraith Mark Allen: Diogelwch dŵr ac atal boddi. Ar gael ar-lein: senedd.cymru/media/333d0awo/cr-ld15291-w.pdf

xii. Nofio Cymru (2023) YMLAEN: Ein Strategaeth ar gyfer Gweithgareddau Dyfrol yng Nghymru. Ar gael: https://www.swimwales.org/wp-content/uploads/2023/06/YMLAEN-Cym.pdf

xiii. Cymdeithas Achub Bywyd Frenhinol y Deyrnas Unedig (2024) A Headline Exploration: Air temperatures and accidental drowning. Ar gael ar-lein: rlss.org.uk/a-headline-exploration-air-temperatures-and-accidentaldrowning

xiv. S P. Hills, M. Hobbs, P. Brown, M. Tipton, M. Barwood (2024) Association between air temperature and unintentional drowning risk in the United Kingdom 2012–2019: A nationwide case-crossover study. Ar gael ar-lein: sciencedirect.com/science/article/pii/S0091743523004188?via%3Dihub

xv. Llywodraeth Cymru (2025) Cymru Iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Ar gael ar-lein: https://www.llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol

xvi. Llywodraeth Cymru (2025) Dealltwriaeth: Strategaeth Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru. Ar gael ar-lein: llyw.cymru/sites/default/files/publications/2025-04/dealltwriaeth-strategaeth-atal-hunanladdiad-hunan-niweidio.pdf

diogelwch dŵr
Cymru
water safety
Wales